Taflen ffeithiau cymorth gyda dyled

Os ydych mewn dyled, peidiwch â drysu. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn gwneud rhywbeth, oherwydd ni fydd y broblem yn diflannu. Peidiwch ag anwybyddu galwadau ffôn neu lythyrau oddi wrth y bobl yr ydych mewn dyled iddynt (eich **credydwyr**). Cysylltwch â nhw i esbonio pam bod gennych broblemau a dilynwch y camau yn y daflen ffeithiau hon i'ch helpu i reoli eich arian.

Os nad ydych yn cytuno bod arian yn ddyledus gennych, neu os nad ydych yn cytuno â'r swm y gofynnwyd i chi ei dalu, cysylltwch ag ymgynghorydd dyled profiadol yn syth am gymorth, cyn dilyn y camau sydd wedi'u nodi yn y daflen ffeithiau hon.

Cam Un – gwnewch restr o'ch dyledion

Cyn mynd i'r afael â'ch dyledion, bydd angen i chi gasglu gwybodaeth am eich materion ariannol. Gwnewch restr o'ch holl gredydwyr. Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch am bob dyled:

- enw a chyfeiriad y credydwr
- rhif y cyfrif neu gyfeirnod
- y swm sy'n ddyledus.

Mae'n syniad da i chi gadw'r llythyr neu gyfriflen ddiweddaraf am bob dyled mewn un lle fel y gallwch ddod o hyd iddynt yn hawdd. Os ydych wedi derbyn papurau neu lythyrau pwysig o'r llys, efallai y bydd angen i chi weithredu'n gyflym. Os ydych yn ansicr ynglŷn â'r hyn i'w wneud nesaf, mynnwch gyngor yn syth gan ymgynghorydd profiadol.

Pan fyddwch wedi gwneud rhestr o'ch holl gredydwyr, bydd angen i chi benderfynu ar ba rai i'w talu yn gyntaf. Bydd angen i chi ddelio â rhai dyledion yn gyntaf oherwydd gallai'r canlyniadau o beidio â thalu'r dyledion hyn fod yn fwy difrifol na dyledion eraill. Gelwir y dyledion sydd angen eu talu gyntaf yn **ddyledion â blaenoriaeth**. Gelwir y dyledion yr ydych yn eu talu ar ôl eich dyledion â blaenoriaeth yn **ddyledion nad ydynt yn flaenoriaeth.**

Dyledion â blaenoriaeth
Mae dyledion â blaenoriaeth yn cynnwys:

- ôl-ddyledion morgais neu rent. Os nad ydych yn eu talu, gallech golli eich cartref
- ôl-ddyledion tanwydd. Os nad ydych yn eu talu, gallai eich tanwydd gael ei atal
- ôl-ddyledion y dreth gyngor
- dirwyon llys megis dirwyon llys am droseddau traffig
- ôl-ddyledion cynhaliaeth plant sy'n daladwy i gynbartner neu blant. Mae hyn yn cynnwys taliadau Cynhaliaeth Plant i'r Asiantaeth Cynnal Plant
- ôl-ddyledion y dreth incwm neu TAW

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- trwydded teledu neu ôl-ddyledion trwydded teledu – mae defnyddio teledu heb drwydded ddilys yn drosedd a gallech gael dirwy

Os nad ydych yn talu ôl-ddyledion y dreth gyngor, dirwyon llys, cynhaliaeth, y dreth incwm neu ôl-ddyledion TAW, gall beilïaid gymryd eich eiddo. Fel dewis olaf, gallech gael eich anfon i'r carchar neu eich gwneud yn fethdalwr.

Dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth

Mae dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth yn cynnwys:

- gordaliadau budd-daliadau
- dyledion credyd megis gorddrafftiau, benthyciadau, hurbwrcasu, cyfrifon cardiau credyd a dyledion catalog
- benthyciadau myfyrwyr
- arian a fenthyciwyd oddi wrth ffrindiau neu deulu.

Ni allwch gael eich anfon i'r carchar am beidio â thalu dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, os nad ydych yn gwneud ymdrech i dalu heb esbonio pam, gallai eich credydwyr eich cymryd i'r llys. Os nad ydych yn talu, gallai eich credydwyr gymryd camau ychwanegol yn eich erbyn yn y llys. Gallai hyn ganiatáu beilïaid i gymryd eich eiddo.

Cam Dau – cyfrifwch eich cyllideb

Rhestrwch eich holl incwm a'ch treuliau. Byddwch yn onest a sicrhewch fod y symiau yn realistig. Gallwch ddefnyddio taflen gyllido i'ch helpu.

Mae eich incwm yn cynnwys:

- eich enillion chi a'ch partner
- unrhyw fudd-daliadau, gan gynnwys Budd-daliadau Plant a chredydau treth
- cynhaliaeth oddi wrth gynbartner ar eich cyfer chi neu eich plant. Dylech gynnwys unrhyw daliadau Cynhaliaeth Plant o'r Asiantaeth Cynnal Plant
- cyfraniadau oddi wrth eich teulu neu unrhyw letywyr.

Meddyliwch am ffyrdd y gallwch ennill mwy o arian neu gynyddu eich incwm. Mae'n bosib y gallwch hawlio budd-daliadau neu gredydau treth.

Mae eich treuliau yn cynnwys:

- costau cadw tŷ. Rhowch symiau realistig am faint ydych yn ei wario ar bethau megis bwyd, sigarét s a bwyd eich anifail anwes
- costau cartref. Dylai hyn gynnwys y morgais neu rent, ail-forgais neu fenthyciad wedi ei warantu, costau gwasanaethau ac yswiriant bywyd neu waddol sy'n gysylltiedig â'ch morgais
- y dreth gyngor
- costau tanwydd a dŵr
- costau ffôn
- costau teithio. Dylech gynnwys costau trafnidiaeth gyhoeddus a chostau cadw car megis treth ffordd, yswiriant a chynhaliaeth
- yswiriant megis adeiladau ac yswiriant cynnwys eich cartref
- costau gofal plant

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- trwydded teledu a chostau rhentu teledu
- dillad
- unrhyw dreuliau hanfodol eraill
- arian ar gyfer argyfyngau.

Pan fyddwch chi wedi cyfrifo'ch holl ffigyrau, byddwch yn gallu gweld os oes gennych unrhyw arian ar ôl i dalu eich dyledion. Efallai y byddwch yn gallu dod o hyd i ffordd o arbed arian. Gall asiantaeth gynghori eich helpu i gynllunio cyllideb a'ch helpu i gynyddu eich incwm os yw hyn yn bosibl.

Cam tri – mynd i'r afael â'ch dyledion â blaenoriaeth

Pan fyddwch wedi cyfrifo faint sydd gennych yn weddill ar ôl i chi dalu eich treuliau, cysylltwch â'ch credydwyr â blaenoriaeth i gyd. Dangoswch eich cyllideb iddynt a cheisiwch ddod i gytundeb ynghylch sut i dalu eich dyledion. Er enghraifft, efallai y gallwch dalu ychydig mwy bob mis tan fod yr ôl-ddyledion wedi cael eu clirio. Neu efallai nad oes gennych unrhyw arian ychwanegol ar hyn o bryd ond rydych yn gwybod y byddwch yn derbyn cyfandaliad mewn tri mis a fydd yn clirio'r ddyled yn gyfan gwbl.

Os na allwch fforddio talu unrhyw arian i'ch credydwyr â blaenoriaeth ac nid yw eich sefyllfa yn debygol o wella, gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol iawn. Mynnwch gyngor ar unwaith.

Cam pedwar- mynd i'r afael â'ch dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth

Mae sut i ddelio â dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth yn dibynnu ar b'un ai bod gennych unrhyw arian yn weddill ar ôl delio â'ch dyledion â blaenoriaeth a thalu'r treuliau hanfodol megis costau'r cartref a bwyd.

Os oes gennych arian yn weddill, mae'n bosib y gallwch fynd i'r afael â'ch dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth mewn sawl ffordd. Efallai y gallwch:

- wneud **cynigion i gredydwyr eich hun**
- ofyn i **Gwmni Rheoli Dyledion** i wneud cynigion ar eich rhan. Bydd y mwyafrif o gwmnïau rheoli dyled yn codi tâl am y gwasanaeth hwn ond mae yna ddau gwmni rhad ac am ddim, CCCS a Payplan
- wneud cais i'r llys am **Orchymyn Gweinyddu**. Byddai hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi dalu rhan o'r ddyled yn unig. Cewch wneud cais am Orchymyn Gweinyddu os oes gennych o leiaf un **dyfarniad llys sirol** yn eich erbyn a bod gennych ddyledion sy'n llai na £5000
- drefnu **Trefniant Gwirfoddol Unigol (IVA)**, sef cytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'ch credydwyr sy'n nodi sut y byddwch yn talu eich dyledion. Bydd ymgynghorydd profiadol yn gallu rhoi mwy o gyngor i chi am y math hwn o gytundeb

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- dalu eich dyledion i gyd gydag un benthyciad. Gelwir hyn yn **fenthyciad cyfuno**. Nid yw fel arfer yn syniad da i fenthyg arian i dalu dyledion a gallai fod anfanteision difrifol. Sicrhewch eich bod yn cael cyngor cyn cael benthyciad arall.

Os nad oes gennych lawer neu unrhyw arian ar ôl, unrhyw beth gwerthfawr i'w werthu ac nid yw eich amgylchiadau yn debygol o wella yn fuan, ni fydd gennych lawer o opsiynau a fydd yn eich galluogi i fynd i'r afael â'r dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth. Dyma'r opsiynau fydd gennych:

- gofyn i'ch credydwyr i **ddileu eich dyled**
- gwneud cais am **fethdaliad**
- gwneud cais am Orchymyn Rhyddhau Dyledion. Mae'n debyg i fethdaliad ond mae Gorchymyn Rhyddhad Dyledion ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu fforddio datgan eu hun yn fethdalwr. Gallwch wneud cais amdano os oes gennych ddyledion sy'n llai na £15,000 ac incwm isel. Mae'n rhaid i chi gyflwyno'r cais drwy ymgynghorydd o'r enw 'cyfryngwr cymeradwy'. Gall eich Canolfan Cyngor ar Bopeth eich cyfeirio chi at gyfryngwr yn eich ardal chi.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth

Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Llinell Gymorth National Debtline

Mae National Debtline yn rhoi gwybodaeth rad ac am ddim i bobl sydd â phroblemau gyda dyled. Rhif ffôn y National Debtline yw 0808 808 4000 a'i wefan yw www.nationaldebtline.co.uk

Y Gwasanaeth Ansolfedd

Llinell Ymholiadau: 0845 602 9848
Gwefan: www.insolvency.gov.uk.

Mae yna ystod o wybodaeth am fethdaliad ar gael ar y wefan neu drwy ofyn. Mae'r wybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill yn ogystal â Saesneg.

Gwasanaeth Cwnsela Credyd Defnyddwyr (CCCS)

Mae CCCS yn elusen gofrestredig sy'n darparu cyngor a chymorth cyfrinachol rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n pryderu am ddyled. Mae gan CCCS:

- linell gymorth rad ac am ddim ar **0800 138 1111** lle y gallwch siarad ag Ymgynghorydd Dyled
- wefan lle y cewch wybodaeth am sut i ddelio gyda'r problemau sy'n ymwneud â dyled: www.cccs.co.uk
- **Adnodd Delio â Dyledion** ar-lein. Mae'n gofyn cyfres o gwestiynau i chi am

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

y sawl sy'n byw yn eich cartref, eich incwm a'ch gwariant ac yna mae'n cynnig camau sydd wedi'u teilwra ar gyfer eich amgylchiadau personol chi. Rhowch glic ar www.cccs.co.uk.

Payplan

Mae Payplan yn gwmni annibynnol sy'n cynnig cyngor rhad ac am ddim ar ddyled a datrysiadau i gleientiaid, megis cynlluniau rheoli dyledion. Pan ydych yn cysylltu â Payplan, bydd ymgynghorydd yn edrych ar eich sefyllfa ariannol a'ch helpu chi i ddod o hyd i'r opsiwn gorau ar eich cyfer chi er mwyn mynd i'r afael â'ch dyledion. Os yw opsiwn ad-dalu yn addas, gallan nhw eich helpu chi i gysylltu â'ch credydwyr i drafod cynllun ad-dalu a dosrannu taliadau ar eich rhan chi tan fod eich dyledion yn cael eu talu.

Gallwch chi gysylltu â Payplan ar rad ffôn: 0800 716 239 neu drwy glicio ar: www.payplan.com.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda dyled
- Y daflen gyllido
- Credyd
- Methdaliad
- Beilïaid
- Sampl o lythyrau sy'n ymwneud â dyled

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 18 Hydref 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr